# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 29 Mawrth 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4259

# 62(v7)

## Cofnod y Trafodion

Gweld Cofnod y Trafodion

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 5 gan y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

Dechreuodd yr eitem am 14.22

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiynau 4 a 7 gan Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Ymateb i Erthygl 50

Dechreuodd yr eitem am 15.10

## Cynnig am Ddadl Frys o dan Reol Sefydlog 12.69, Simon Thomas

Dechreuodd yr eitem am 16.06

Bod y Cynulliad yn ystyried effaith tanio Erthygl 50 ar Gymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 20 | 0 | 34 | 54 |

**Gwrthodwyd y cynnig.**

## Cwestiwn Brys

Dechreuodd yr eitem am 16.12

<u>I'r Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol:</u>

**Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reolaeth Chwaraeon Cymru yn y dyfodol yn dilyn y penderfyniad i roi terfyn ar swyddi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y sefydliad? EAQ(5)0154(HWS)

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 16.24

Gwnaeth Jenny Rathbone ddatganiad am Wythnos Chwyldro Ffasiwn 24-30 Ebrill.

Gwnaeth Mark Isherwood ddatganiad ynghylch “"Wythnos Ymwybyddiaeth Awtistiaeth y Byd".

Gwnaeth Suzy Davies ddatganiad ynghylch y gwasanaeth newydd sy’n ystyriol o ddementia a lawnswyd yn Tesco wythnos diwethaf yn Abertawe.

## 5 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr ymchwiliad i ddarpariaeth o ran eiriolaeth statudol

Dechreuodd yr eitem am 16.29

**NDM6275** Lynne Neagle (Torfaen)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr Ymchwiliad i Ddarparu Eriolaeth Statudol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2017.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar ddeiseb ar Ganser yr Ofari

Dechreuodd yr eitem am 17.02

**NDM6276** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar y ddeiseb, 'Cefnogi Sgrinio Blynyddol ar gyfer Canser yr Ofari' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Chwefror 2017.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig

Dechreuodd yr eitem am 17.48

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM6274**

David Rowlands (Dwyrain De Cymru)
Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cymeradwyo nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac yn cydnabod y rôl allweddol sydd gan ysgolion o ran ei gyflawni.

2. Yn credu y bydd herio barn gyhoeddus leol yn cyfyngu ar y gobaith o lwyddo ac y dylai newidiadau i sefydliadau addysgol sy'n cwmpasu Cyfnodau Allweddol 1 i 5 gael eu gwneud mewn ffordd a gaiff ei chefnogi gan y mwyafrif o rieni, gwarcheidwaid neu drigolion lleol, sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau addysgol ar ran eu plant.

3. Yn credu bod angen i gynigion i newid ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion dwy-ffrwd neu ysgolion pontio yn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu eu cau gynnwys ymgynghoriad lleol gwirioneddol:

a) gyda'r holl ymatebwyr yn darparu eu henwau, cyfeiriadau a chodau post;

b) gyda'r holl unigolion a enwir mewn deiseb a gyflwynir yn cael eu cofnodi fel sylwadau ar wahân; ac

c) nad yw'n rhoi blaenoriaeth i drydydd parti, nad yw'n gysylltiedig â'r mater, dros ddymuniadau rhieni neu drigolion lleol.

4. Yn credu bod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin cyn penderfynu cau ysgol babanod ac ysgol iau ffederal dwy-ffrwd Llangennech a'u troi'n un ysgol cyfrwng Cymraeg yn un gwallus.

5. Yn credu y dylai'r cyngor ddiddymu ei benderfyniad tra cynhelir ymgynghoriad pellach ar sail yr egwyddorion a nodir ym mharagraff 3 uchod.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 7 | 0 | 45 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Papur Gwyn eleni er mwyn ymgynghori ar ddarpariaethau ar gyfer Bil newydd y Gymraeg fel rhan o gynlluniau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Yn cydnabod y buddsoddiad ychwanegol yn 2017-18 i wella a chynyddu'r ddarpariaeth Cymraeg yn y gweithle a hyrwyddo'r Gymraeg.

Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adolygu proses y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Yn cydnabod bod yn rhaid i awdurdodau lleol a chynigwyr eraill gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, a rhaid iddynt ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth gynnig newidiadau sylweddol i ysgolion yn eu hawdurdodaeth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 0 | 17 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Derbyniwyd gwelliant 1, felly cafodd gwelliant 3 ei ddad-ddethol.**

**Ni chynigiwyd gwelliant 2.**

**4.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod cwymp wedi bod yn nifer yr athrawon Cymraeg eu hiaith sy'n dechrau yn y proffesiwn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**5. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod y broses o gau ysgolion wedi cael effaith anghymesur ar ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 9 | 26 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**6. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi holl fanteision gwybyddol, addysgol, economaidd a chymdeithasol dwyieithrwydd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**7. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod canran y dysgwyr saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neb newid yn y blynyddoedd diwethaf.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**8. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig.

Yn nodi bod Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin 2014-2017, a oedd yn cynnwys y penderfyniad i sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg yn Llangennech, wedi'i gymeradwyo'n unfrydol gan y Cabinet o dan arweiniad Llafur ym mis Gorffennaf 2014, a bod yr holl benderfyniadau dilynol wedi'u cymeradwyo gan yr awdurdodau priodol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 11 | 31 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 8.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM6274**

David Rowlands (Dwyrain De Cymru)
Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cymeradwyo nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac yn cydnabod y rôl allweddol sydd gan ysgolion o ran ei gyflawni.

2. Yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Papur Gwyn eleni er mwyn ymgynghori ar ddarpariaethau ar gyfer Bil newydd y Gymraeg fel rhan o gynlluniau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

3. Yn cydnabod y buddsoddiad ychwanegol yn 2017-18 i wella a chynyddu'r ddarpariaeth Cymraeg yn y gweithle a hyrwyddo'r Gymraeg.

4. Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adolygu proses y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

5. Yn cydnabod bod yn rhaid i awdurdodau lleol a chynigwyr eraill gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, a rhaid iddynt ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth gynnig newidiadau sylweddol i ysgolion yn eu hawdurdodaeth.

6. Yn nodi holl fanteision gwybyddol, addysgol, economaidd a chymdeithasol dwyieithrwydd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 1 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 8 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.40

## 9 Dadl Fer (Ail-drefnwyd o 22 Mawrth)

Dechreuodd yr eitem am 18.46

**NDM6266** Dawn Bowden (Merthyr Tydfil a Rhymni)

Undebau Credyd: Cyfraniad allweddol i fynd i'r afael ag allgáu ariannol.

## 10 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 19.01

**NDM6273** Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru)

Enseffalopathi trawmatig cronig a chwaraeon - a all Cymru arwain y ffordd?

## Crynodeb o Bleidleisiau

Daeth y cyfarfod i ben am 19.15

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 4 Ebrill 2017**